

Fersiwn y dysgwyr

Canllawiau

Bwriad y deunyddiau hyn yw **cynnig enghreifftiau o'r mathau o brofion a chwestiynau** fydd yn cael eu defnyddio yn y Profion Darllen Cenedlaethol statudol.

Ceir pedwar prawf darllen yn Saesneg a phedwar prawf darllen yn Gymraeg (profion gwreiddiol ydynt, nid cyfieithiadau) i'w defnyddio ym mis Mai. Fe'u defnyddir gyda grwpiau blwyddyn fel a ganlyn – Blynyddoedd 2/3, Blynyddoedd 4/5, Blynyddoedd 6/7 a Blynyddoedd 8/9.

6/7 a Blynyddoedd 8/9.

Serch hynny, **at ddibenion y deunyddiau sampl hyn**, ac er mwyn hwyluso pethau i ysgolion, cyflwynir y deunyddiau fel a ganlyn.

- Blynyddoedd 2/3 – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.
- Blynyddoedd 4/5/6 (deunyddiau cynradd) – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.
- Blynyddoedd 7/8/9 (deunyddiau uwchradd) – fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon.

Lluniwyd y deunyddiau i'w defnyddio ochr yn ochr â'i gilydd – sef fersiwn y dysgwyr a fersiwn yr athrawon yn goleuo ei gilydd.

Ceir **darn darllen a chwestiynau arno** yn fersiwn y dysgwyr. Gellid lawrlwytho'r ddogfen a'i defnyddio gyda'r dysgwyr yn y dosbarth – naill ai'n gopïau caled neu'n electronig, er enghraifft, ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.

Yn fersiwn yr athrawon, ceir copi o fersiwn y dysgwyr â nodiadau arno. Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am bwrpas y mathau gwahanol o gwestiynau yn ogystal ag egluro sut dylai'r dysgwyr ateb y cwestiynau er mwyn dangos eu gwir allu. Gellir lawrlwytho fersiwn yr athrawon a'i argraffu neu'i ddefnyddio'n electronig.

Noder: nid yw'r deunyddiau sampl yn cynrychioli'r prawf cyfan.

Eu pwrpas yw enghreifftio'r dull cwestiynu a ddefnyddir.

Mae deunyddiau sampl wedi'u haddasu ar gael i gefnogi dysgwyr â nam golwg neu ddysgwyr sydd fel arfer yn defnyddio print bras yn yr ystafell ddogfen.

Mae'r deunyddiau i gyd ar gael mewn Print Bras wedi'i Addasu (maint B4, ffont pwynt 18) neu Braille (Gradd 2). Mae deunyddiau i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 4 i 9 ar gael hefyd mewn fformat Print Mwy (maint B4, ffont pwynt 14).

Os ydych wedi archebu profion wedi eu haddasu ac os hoffech dderbyn copïau o'r deunyddiau enghreifftiol hyn, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Archebu Profion ar 01753 637270 neu welsh-test-orders@nfer.ac.uk



Deunyddiau darllen sampl

Fersiwn y dysgwyr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cyfweiliad

Eisteddai Mrs Rogers ar y fainc y tu allan i stydi'r prifathro. Teimlai'n nerfus oherwydd bod y coridor yn ei hatgoffa o'i dyddiau ysgol hithau. Roedd y llawr pren cris-croes a'r drysau derw a'r cwareli gwydr uchel yn gwneud y coridor yn bŵl*. Sylwodd fod dyrnau pres y drysau yn dal i sgleinio fel yn ei dydd hi a bod y waliau'n frown o hyd. Pysurodd Miss Humphreys heibio a llond braich o lyfrau ganddi. Gwenodd yn frysiog ar Mrs Rogers wrth iddi gerdded yn fwriadus i un o'r ystafelloedd gerllaw. Daeth tri athro heibio, Mr Owen yn ei got wen, Mr Prothero yn ei dracsiwt a Mr Price yn ei siaced frethyn. Cerddent yn hamddenol, wedi ymgolli mewn sgwrs. Roedd rhai o'r genethod** yn dangos lluniau i Mrs Watkin gyferbyn â'r fainc lle roedd Mrs Rogers yn eistedd ac roedd Mrs Watkin yn canmol un ohonynt am allu trin camera mor ddeheuig. Yn ôl y tameidiau o sgwrs a glywai, casglai Mrs Rogers mai priodas chwaer un ohonynt oedd dan sylw, a Mrs Watkin wedi bod yn ei dysgu beth amser yn ôl.

Roedd pawb yn dychwelyd o'r egwyl ganol bore. Edrychent mor gartrefol, ac mor sicr ohonynt eu hunain nes bod Mrs Rogers yn teimlo'n gyfan gwbl ddieithr er gwaetha'r holl flynyddoedd a dreuliasai yn yr union adeilad hwn. Roeddynt yn lwcus y dyddiau yma, meddylioddd, o fod wedi cael bloc newydd sbon ar draws yr hen iard chwarae.

'Dewch i mewn, Mrs Rogers.' Daeth llais cwrtais Mr Nash-Jones ar draws ei myfyrdod.

Cododd Mrs Rogers a'i ddilyn i'r stydi. Eisteddodd ar flaen y gadair freichiau a estynnodd Mr Nash-Jones iddi.

'Fel Hilda dwi'n eich nabod chi wrth gwrs,' meddai dan wenu.

Gwenodd Mrs Rogers yn ôl wrth gofio'r dyddiau pan oedd Mr Nash-Jones yn ceisio dysgu daearyddiaeth iddi cyn iddo fynd yn brifathro.

'Dwi'n dal i fethu darllen mapia,' addefodd Mrs Rogers. 'Dim synnwyr cyfeiriad, dyna fy nrgw i.'

'Dach chi wedi rhoi eich plant ar ben y ffordd beth bynnag.'




yn bŵl* – yn dywyll

genethod** – merched


1 Darllenwch baragraff un eto.

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Roedd Mrs Rogers yn aros i weld y meddyg.		
Roedd Miss Humphreys wedi gweld Mrs Rogers.		
Athro addysg gorfforol oedd Mr Prothero.		
Ysgrifennyddes yr ysgol oedd Mrs Watkin.		




2 Dewiswch a chopiwch un gair sydd yn dangos nad oedd y tri athro'n brysio i'w gwersi.



3 Edrychwch ar y testun yn y bocs.


Tanlinellwch yr ymadrodd sy'n dangos bod Mrs Rogers yn gyn-ddisgybl.

Roedd y llawr pren cris-croes a'r drysau derw a'r cwareli gwydr uchel yn gwneud y coridor yn bwl*. Sylwodd fod dyrnau pres y drysau yn dal i sgleinio fel yn ei dydd hi a bod y waliau'n frown o hyd.



4 Tynnwch 4 llinell arall i ddangos pwy oedd yn gwneud beth. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.


eistedd ar fainc	●	●	Mr Owen
gwisgo cot wen	●	●	Mrs Waktin
siarad â disgyblion	●	●	Mrs Rogers
cario llyfrau	●	●	Miss Humphreys
siarad ag athrawon eraill	●	●	Mr Price



5a Sut roedd Mrs Rogers yn teimlo wrth aros?

Ticiwch 1.


- yn hapus ac yn gartrefol
- wedi cael llond bol
- yn nerfus ac yn anghyfforddus
- wedi blino'n lân

5a

1m

5b Beth rydych chi'n ei wybod am y prifathro ar ôl darllen y darn hwn?

Ticiwch 2.


- Roedd yn berson cwrtais a charedig.
- Roedd yn arfer dysgu gwyddoniaeth.
- Nid oedd yn hoff iawn o Mrs Rogers.
- Nid oedd yn adnabod Mrs Rogers.
- Roedd yn meddwl bod Mrs Rogers yn fam dda.

5b

1m

6 Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1–5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

- tri athro yn mynd heibio
- Mrs Watkin yn edrych ar luniau'r merched
- Mrs Rogers yn aros yn y coridor
- y prifathro'n dod allan o'i swyddfa
- Mrs Rogers yn siarad am ei diffyg sgiliau daearyddiaeth

6

1m

Diwedd y deunyddiau sampl.

Diolchiadau

'Y Cyfweliad' addaswyd o'r nofel *lawn yn y Bôn*
gan Mari Williams, Gomer, 1988.

© Hawlfraint y Goron 2013